

## Tasg 2

# Unigryw!

### Blasau gwahanol

Gwaith pâr

1. Dyma'r cwestiwn ar ddechrau'r darn ar y brif sgrin.

Beth yw'ch hoff siocled chi?

Trafodwch y cwestiwn gyda'ch partner, gan roi rhesymau.

2. Pa gwmni sy'n gwneud y siocled gorau yn eich barn chi?

Rhowch reswm dros eich ateb.

3. Pa flasau o siocled sy'n cael eu dangos ar y clip?

Gwnewch restri.

Cymharwch eich rhestri.

4. Enwch flasau eraill o siocled. Pwy sy'n gallu gwneud y rhestr fwyaf?

5. Mae'r cwmni ar y clip yn arbrofi gyda gwahanol flasau. Ar y clip fideo, er enghraifft, maen nhw'n gwneud siocled pice ar y maen / cacennau cri.

Rydych chi'n mynd i ddyfeisio blas newydd o siocled – ond pa flas?

- a. Meddyliwch am flas newydd ar gyfer bar o siocled.
- b. Enwch y bar – ceisiwch feddwl am enw clyfar.
- c. Dyluniwch becyn newydd ar gyfer y bar – rhaid i liw'r pecyn a'r delweddau gyfleu'r blas a rhaid iddyn nhw gyfleu'r syniad fod y bar yn flasus tu hwnt.
- ch. Ysgrifennwch ddarn i hysbysebu'r bar. Cofiwch ddweud pa mor flasus ydyw.
- d. Cyflwynwch y cynnyrch i'r grŵp.
- dd. Trafodwch gynnyrch eich gilydd. Pa gynnyrch yw'r un gorau a pham?